

# » SCHOOLS PARTNERSHIP PROGRAMME

Improving outcomes through a collaborative model of peer review and school improvement

## Dechrau Arni



# Protocolau ar-lein

- Rhowch eich fideo ymlaen a gwneud yn siŵr bod eich enw'n wedi'i ddiweddarau
- Diffoddwch eich microffon pan nad ydych chi'n siarad
- Byddwn yn defnyddio'r swyddogaeth sgwrsio ar gyfer gweithgareddau ac yn anfon dolenni atoch yn ystod y sesiwn
- Mae croeso i chi hefyd anfon unrhyw gwestiynau unrhyw bryd yn y sgwrs

# Amdanom ni

Mae'r **Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg** yn sefydliad dim-er-elw a'n gweledigaeth yw byd lle mae bywydau pawb yn cael eu gweddnewid drwy addysg ragorol.

Rydyn ni'n **cyfuno arbenigedd byd-eang a lleol, gan geisio cryfhau systemau addysg**, trawsnewid addysgu a dysgu a chyfrannu at ymatebion byd-eang i heriau addysgol allweddol.

Mae gennym raglen ymchwil sy'n cael ei chydabod yn rhyngwladol ac sydd **ar gael i'r cyhoedd**. Mae syniadau o'r ymchwil hwn yn cael eu rhoi ar waith, **gan ein helpu i gynllunio rhaglenni sy'n cael effaith fawr**.



# Ein gwaith yn y DU

Ni yw un o'r **darparwyr rhaglenni datblygu proffesiynol mwyaf yn y DU** ac rydyn ni wedi arwain ystod eang o gynlluniau cenedlaethol.



# Nodau'r gweithdy hwn:

- Cyfle i ddod i adnabod ei gilydd
- Rhoi mwy o fanylion i chi am eich rhaglen a chyfle i ofyn cwestiynau
- Rhoi amser i chi drafod logisteg, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau
- Cytuno ar y nodau lefel partneriaeth cychwynnol ar gyfer eleni ar sail y cwestiwn ymholi; 'ble rydyn ni arni nawr a ble rydyn ni am gyrraedd yn y flwyddyn gyntaf hon?'

# Dod i adnabod ein gilydd – gweithgaredd torri'r garw

- Sawl un ohonom ni.....
  - sy'n adnabod ein gilydd / eraill yn yr 'ystafell'?
  - sy'n newydd i'r bartneriaeth?
  - sydd wedi cymryd rhan mewn adolygiad gan gymheiriaid o'r blaen?

# Ein hymrwymiad i welliant parhaus



Yn yr Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg, rydym yn mynd ati i sicrhau gwelliant parhaus, datblygu arweinwyr ac athrawon gwych, a rhoi'r cychwyn gorau un mewn bywyd i blant a phobl ifanc.

Mae'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion a sefydlwyd yn 2014:

- wedi cael ei ddatblygu ar gyfer ysgolion, ac mewn partneriaeth â nhw
- wedi cael ei seilio ar adolygiad gan gymheiriaid proffesiynol
- wedi ei llywio gan ymchwil ryngwladol ar wella ysgolion ar y cyd
- yn canolbwyntio ar yr arfau sydd eu hangen ar arweinwyr ysgolion i sbarduno gwelliant mewn system ysgolion sy'n gynyddol annibynnol

# Datblygu SPP

Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (SPP) sydd â'r cyrhaeddiad ehangaf o unrhyw raglen adolygu gan gymheiriaid yn Lloegr, ac mae dros 1,700 o ysgolion wedi gweithio gyda ni i wreiddio arferion adolygu gan gymheiriaid yn y 6 blynedd diwethaf.

- Cyflwynir gan ein **tîm arbenigol** o Gydgysylltwyr SPP
- Ar hyn o bryd, mae'n rhan o **werthusiad gan y Sefydliad Gwaddol Addysgol**, gyda dros 450 o ysgolion yn cymryd rhan
- Rydyn ni'n darparu hyfforddiant ac yn dysgu o **amrywiaeth o grwpiau ysgol**, gan gynnwys clystyrau anffurfiol, Ymddiriedolaethau Aml-academi ac Awdurdodau Lleol




# Egwyddorion SPP

1. Galluededd athro a lles
2. Gwella ysgolion ar y cyd
3. Cydweithio anfeirniadol sy'n canolbwyntio ar ymholiadau
4. Ymddiriedaeth a thryloywder
5. Dull hyfforddi
6. Yn cael ei sbarduno gan ysgolion
7. Ysgol gyfan
8. Ar gyfer pob ysgol
9. Ar sail tystiolaeth
10. Model ardal leol, gynaliadwy

# Sut mae SPP yn gweithio?

Mae'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (SPP) yn galluogi partneriaethau o ysgolion i gymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid penodol a datblygu partneriaethau cryfach drwy feithrin mewn arweinwyr ac athrawon sgiliau **ymholi effeithiol, casglu tystiolaeth yn anfeirniadol a hyfforddi.**



**Mae ein hyfforddiant yn grymuso ac yn cefnogi partneriaethau o ysgolion i gydweithio ag ewyllys a phwrpas ar y cyd i wella, gan ddefnyddio ein fframwaith seiliedig ar dystiolaeth i hunan-adolygu, adolygu gan gymheiriaid yn barhaus a chymorth ysgol i ysgol.**

**Dechrau Arni**  
**Gweithdy Partneriaeth:**  
 2 awr

**FFOCWS:** Ble ydyn ni arni nawr a beth ydyn ni eisiau ei gyflawni fel partneriaeth drwy'r rhaglen adolygiad gan gymheiriaid ym mlwyddyn 1?

**CANLYNIAD:** Bydd pob partneriaeth a'r Hwylusydd SPP yn cytuno ar grynodedb.

Eglurhad o rolau a chyfrifoldebau

**PWY FYDD YN BRESENNOL?**  
 Pob pennaeth

**Adolygiad gan Gymheiriaid a Hyfforddiant i Hwyluswyr:**  
 9am – 3pm wyneb yn wyneb neu wedi'u rhannu'n 4 x sesiwn rithwir

**FFOCWS:** Pwyso a mesur yr egwyddorion, y prosesau a'r sgiliau sy'n gysylltiedig ag adolygu gan gymheiriaid; datblygu dealltwriaeth o rôl Hwyluswyr Gwella a'r gweithdy gwella; a dechrau'r gwaith cynllunio a fydd yn helpu adolygu gan gymheiriaid i weithio'n dda yn eich partneriaethau.

Bydd cyfleoedd yn ystod y sesiwn i ddatblygu sgiliau allweddol fel bod pob unigolyn yn teimlo'n hyderus yn eu rôl yn y broses.

**CANLYNIAD:** Erbyn diwedd y sesiwn, **byddwch yn barod i ddechrau adolygiad gan gymheiriaid**, wedi cytuno ar gyfansoddiad eich timau adolygu cymheiriaid a'ch amserlen o adolygiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**PWY FYDD YN BRESENNOL?**  
 Pob pennaeth ac 1 uwch arweinydd arall o bob ysgol a Hwyluswyr Gwella a ddynodwyd o bob rhan o'r bartneriaeth

**Cynnydd**  
**Gweithdy Partneriaeth:**  
 2 awr

**FFOCWS:** I ba raddau y mae ein harfer o adolygu gan gymheiriaid yn bodloni ein disgwyliadau?

Pa newidiadau mewn arferion ac effaith ydyn ni'n eu gweld ar ôl 6 mis?

Pa newidiadau fyddwn ni'n eu gwneud yn y 6 mis nesaf er mwyn bod hyd yn oed yn fwy effeithiol yn ein hymarfer o adolygu gan gymheiriaid?

**CANLYNIAD:** Cytuno ar grynodedb a chynllun gweithredu i gryfhau ymarfer adolygu gan gymheiriaid rhwng arweinydd y bartneriaeth a'r Hwylusydd SPP ynghyd ag anghenion datblygu i'w hystyried yn y trydydd gweithdy.

**PWY FYDD YN BRESENNOL?**  
 Pob pennaeth a Hwyluswyr Gwella o bob rhan o'r bartneriaeth

**Hyfforddiant i Hwyluswyr Gwella Uwch:**  
 9am – 3pm wyneb yn wyneb neu wedi'u rhannu'n 4 x sesiwn rithwir

**FFOCWS:** Adolygu'r hyn sydd wedi mynd yn dda yn y gweithdai gwella a gwblhawyd hyd yma, gan ganolbwyntio ar gryfhau'r defnydd o dystiolaeth mewn cymorth ysgol i ysgol.

Bydd cyfleoedd yn ystod y diwrnod i ddatblygu sgiliau allweddol fel bod pob unigolyn yn teimlo'n hyderus yn eu rôl yn y broses.

**CANLYNIAD:** Erbyn diwedd y sesiwn, byddwch wedi cytuno ar gyfansoddiad eich timau adolygu cymheiriaid a'ch amserlen o adolygiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**PWY FYDD YN BRESENNOL?**  
 Pob Hwylusydd Gwella o bob rhan o'r bartneriaeth

**'Adolygu'r adolygiadau'**  
**Gweithdy Partneriaeth:**  
 2 awr

**FFOCWS:** Beth ydyn ni wedi'i ddysgu ym Mlwyddyn 1 a ble ydyn ni eisiau cryfhau ein dull gweithredu ym Mlwyddyn 2? Beth sydd ei angen arnom i wneud hyn?

Bydd ysgolion unigol yn defnyddio set o gwestiynau ymholi yn seiliedig ar y disgwyliadau a nodwyd yn y gweithdy gwaelodlin i ystyried y flwyddyn fel ysgol a adolygwyd ac adolygydd cymheiriaid.

**CANLYNIAD:** Byddwch yn cytuno ar y meysydd datblygu a chryfhau ar gyfer Blwyddyn 2 gyda'ch cydgysylltydd SPP, ac yn edrych ar unrhyw flaenoriaethau gan y bartneriaeth lle bo hynny'n briodol.

**PWY FYDD YN BRESENNOL?**  
 Pob pennaeth a Hwylusydd Gwella o bob rhan o'r bartneriaeth

**Arweinyddiaeth ar gyfer Gwella Ysgol ar y Cyd:**  
9am – 3pm wyneb yn wyneb neu wedi'u rhannu'n 4 x sesiwn rithwir

**FFOCWS:** Sut ydyn ni'n creu diwylliant cydweithredol sy'n cael effaith?

Pa fath o arweinyddiaeth sydd angen i ni ei dangos er mwyn galluogi hyn, yn unigol ac ar y cyd?

Bydd set o 'Gipolygon Ymarfer ar y Cyd' y mae SPP wedi'u datblygu gyda phartneriaethau o ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen yn cael eu cyflwyno i'r cyfranogwyr.

**CANLYNIAD:** Gwell dealltwriaeth o'r 'amodau galluogi' ar gyfer gwella ysgolion ar y cyd o fewn ysgolion, a rhyngddynt

#### PWY FYDD YN BRESENNOL?

Uwch arweinwyr o'r ysgolion partneriaeth (2 le fesul ysgol)

**Meithrin gallu - hyfforddiant adolygu gan gymheiriaid ar gyfer Arweinwyr uwch a chanol ychwanegol:**  
9am – 3pm wyneb yn wyneb neu wedi'u rhannu'n 4 x sesiwn rithwir

**FFOCWS:** Pwyso a mesur yr egwyddorion, y prosesau a'r sgiliau sy'n gysylltiedig ag adolygu gan gymheiriaid; datblygu dealltwriaeth o rôl Hwyluswyr Gwella a'r gweithdy gwella; a dechrau'r gwaith cynllunio a fydd yn helpu gwreiddio a chynnal adolygu gan gymheiriaid o fewn ysgolion yn y bartneriaeth, a rhyngddynt.

Bydd cyfleoedd yn ystod y sesiwn i ddatblygu sgiliau allweddol fel bod pob unigolyn yn teimlo'n hyderus yn eu rôl yn y broses.

**CANLYNIAD:** Erbyn diwedd y sesiwn, **byddwch yn barod i ymuno â chydweithwyr yn yr adolygiad gan gymheiriaid**

#### PWY FYDD YN BRESENNOL?

Arweinwyr canol/uwch /staff penodedig o bob ysgol (2 le fesul ysgol)

**Cynnydd Gweithdy Partneriaeth:**  
2 awr

**FFOCWS:** I ba raddau y mae ein harfer o adolygu gan gymheiriaid yn bodloni ein disgwyliadau?

Pa newidiadau mewn arferion ac effaith ydyn ni'n eu gweld ar ôl 6 mis?

Pa newidiadau fyddwn ni'n eu gwneud yn y 6 mis nesaf er mwyn bod hyd yn oed yn fwy effeithiol yn ein hymarfer o adolygu gan gymheiriaid?

**CANLYNIAD:** Cytunir ar grynodedd a chynllun gweithredu i gryfhau ymarfer adolygu gan gymheiriaid rhwng arweinydd y bartneriaeth a'r Hwylusydd SPP ynghyd ag anghenion datblygu i'w hystyried yn y trydydd gweithdy.

#### PWY FYDD YN BRESENNOL?

Pob pennaeth a Hwylusydd Gwella o bob rhan o'r bartneriaeth

**Adolygu'r Adolygiadau:**  
2 awr

**FFOCWS:** Beth ydyn ni wedi'i ddysgu ym Mlwyddyn 1 a ble ydyn ni eisiau cryfhau a chynnal ein dull gweithredu ym Mlwyddyn 3? Beth sydd ei angen arnom i wneud hyn?

Bydd ysgolion unigol yn defnyddio set o gwestiynau ymholi yn seiliedig ar y disgwyliadau a nodwyd yn y gweithdy gwaelodlin ar ddechrau cam 1 i'w ystyried fel ysgol a adolygwyd ac adolygydd cymheiriaid.

**CANLYNIAD:** Gyda'ch cydgysylltydd SPP, byddwch yn cytuno ar y meysydd datblygu a chryfhau ar gyfer Blwyddyn 3 ac yn edrych ar unrhyw flaenoriaethau gan y bartneriaeth lle bo hynny'n briodol.

#### PWY FYDD YN BRESENNOL?

Pob pennaeth a Hwylusydd Gwella o bob rhan o'r bartneriaeth

**Dewis o 2 fodiwl pwrpasol wedi'u datblygu a'u cyflwyno ar y cyd ar lefel partneriaeth gan Hwylusydd SPP yn seiliedig ar angen strategol y cytunwyd arno o fewn pedair thema allweddol:**

**FFOCWS:** Targedwch eich adolygiad gan gymheiriaid i ganolbwyntio ar feysydd penodol, er enghraifft Mynd i'r Afael ag Anfantais, Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (AAAA) neu yn achos y prosiect hwn, ymestyn i feysydd gwella ysgolion ehangach sy'n seiliedig ar ein fframwaith ymholiadau craidd

**DYFNHAU:** Datblygu eich arferion arwain ac adolygu gan gymheiriaid ymhellach drwy hyfforddi mwy o gydweithwyr i adolygu cymheiriaid neu ddatblygu arweinyddiaeth gwella ysgolion ar y cyd ymhellach

**GWERTHUSO:** Monitro, deall, datblygu a chyfleu eich effaith, gan ddyfnhau'r gallu i roi tystiolaeth wrth galon eich ymarfer

**EHANGU:** Broceriaeth a chefnogaeth i gysylltu ag ysgolion eraill ledled y wlad sydd hefyd yn defnyddio SPP ar gyfer adolygu cymheiriaid yn rhithwir, ledled y rhanbarth

# Y cylch adolygu cymheiriaid – wedi'i sbarduno gennyh

## Cam 1: Hunanadolygiad

Mae adolygu effeithiol gan gymheiriaid yn dechrau gyda pha mor dda y mae'r ysgol yn adnabod ei hun. Mae'r fframwaith, sy'n seiliedig ar gwestiynau ymholi, yn helpu ysgolion i gynnal hunanadolygiad cadarn er mwyn helpu i lywio ffocws yr adolygiad gan gymheiriaid.

### Gwiriad ar ôl 90 diwrnod


90 diwrnod ar ôl cwblhau'r gweithdy gwella, bydd yr adolygydd arweiniol a/neu'r Hwylusydd Gwella yn cysylltu â'r ysgol sy'n cael ei hadolygu i wirio cynnydd

## Cam 3: Gweithdy gwella – 1.5 awr

Yn ôl ein profiad ni, lle mae'r staff yn berchen ar y canlyniadau, mae'r effaith hirdymor a chynaliadwy yn fwy sylweddol.

Mae model y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yn cynnwys gweithdy gwella ôl-adolygiad gyda staff perthnasol, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad ac yn cael ei hwyluso gan Hwylusydd Gwella o ysgol arall yn y bartneriaeth.

Mae'r adolygiad yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau hwyluso i fynd at wraidd y materion, cytuno ar gamau gweithredu a threfnu unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion eraill yn y bartneriaeth.



## Cyfarfod cyn yr adolygiad – 1 awr

Ar sail canlyniadau'r hunanadolygiad, mae'r adolygydd arweiniol yn cwrdd â phennaeth yr ysgol sy'n cael ei hadolygu i fireinio ffocws yr adolygiad ar y cyd a chynllunio'r gwaith o gasglu tystiolaeth yn ystod cam 2

## Cam 2: Adolygiad gan gymheiriaid – 1 diwrnod

Mae gan yr adolygiadau gan gymheiriaid mwyaf effeithiol ffocws penodol. Bydd y gweithgareddau casglu tystiolaeth yn amrywio yn ôl ffocws yr adolygiad, a gallent gynnwys cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda staff, rhieni, llywodraethwyr a/neu blant, adolygu data, craffu ar lyfrau, arsylwi neu arolygon.

Daw'r adolygiad gan gymheiriaid i ben gyda sgwrs adborth lle mae'r dystiolaeth yn cael ei rhannu, gan gytuno ar y canfyddiadau cychwynnol.

# Theori Newid

## Partneriaeth

Gallu a chapasiti i arwain gwella ysgolion ar y cyd

Diwylliant o rannu cyfrifoldeb

Systemau a phrosesau agored a thryloyw

Ein hymrwymiad i welliant ein gilydd

## Arweinyddiaeth

Mwy o hyder yn arweinyddiaeth gwella ysgolion ar y cyd

Ymddiriedaeth ochrol gryfach o fewn timau arwain ar draws ysgolion, a rhyngddynt

Adolygu gan gymheiriaid, cefnogaeth ddilynol ac ymyrraeth bwrpasol wedi'i gwreiddio'n llawn mewn cylchoedd gwella ysgolion

Ein hymrwymiad i newid credoau ac ymddygiad

## Athrawon

Mwy o berchnogaeth ar strategaethau ar gyfer gwella a newidiadau mewn ymarfer, ac ymgysylltu â hwy

Gwell ymddiriedaeth ochrol rhwng athrawon o fewn ac ar draws ysgolion

Mae athrawon yn ymwybodol o'r flaenoriaeth wella a'u cyfrifoldeb dros newid arferion

Ein hymrwymiad i datblygu dulliau partneriaeth

## Disgyblion

Gwell cyrhaeddiad a chanlyniadau ysgolion penodol

Ein hymrwymiad i ddisgyblion

# SPP: Theori newid

Trafodaeth mewn ystafelloedd trafod:

- Beth sy'n eich taro chi?
- Beth mae hyn yn ei olygu i'ch ysgol a'ch partneriaeth?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi?



# Cofnodi effaith drwy gydol y rhaglen

## Gweithdai Cam 1

- Dechrau arni (y sesiwn hon)
- Tracio cynnydd (hanner ffordd drwy'r cylchoedd adolygu)
- Gwerthuso effaith

**Ar sail ymholi: defnyddio'r 3 maes ymrwymiad**  
**Canolbwyntio ar gefnogaeth: ysbryd o wella**  
**Canolbwyntio ar effaith: canlyniadau i ddisgyblion**

# SPP: Proses sy'n seiliedig ar dystiolaeth



## Wedi'u cymryd o Ganllawiau Gweithredu EEF

Sut ydych chi'n tracio cynnydd ymyriadau a gwella ysgolion ar hyn o bryd?

# Rolau Allweddol

## Arweinydd y bartneriaeth (Un o'r Penaethiaid)

- Cyswllt ar gyfer y bartneriaeth a'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg
- Sicrhau bod amserlen adolygu cymheiriaid y bartneriaeth ar y trywydd iawn
- Sicrhau bod y bartneriaeth yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried y broses a dod â'r dysgu at ei gilydd

## Adolygwyr cymheiriaid / tîm adolygu (Uwch arweinwyr – gan gynnwys y pennaeth)

- Arweinydd neu aelod o'r tîm mewn tîm adolygu
- Cytuno ar y maes ffocws a chynllunio'r adolygiad gyda'r ysgol sy'n cael ei hadolygu
- Casglu tystiolaeth ac adborth ar gyfer yr ysgol
- Cefnogi hyrwyddwyr/hwyluwyr gwella

## Hwyluswyr / hyrwyddwyr gwella (Arweinwyr / athrawon eraill)

- Ymarferwyr effeithiol iawn sy'n gallu arwain ar agweddau ar wella ysgolion a phartneriaethau
- Yn hwyluso'r gweithdy ôl-adolygiad ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu'r ysgol
- Gweithio gydag arweinydd y bartneriaeth i fonitro effaith barhaus

# Rolau Allweddol

## Nifer y lleoedd fesul ysgol:

- 2 x Adolygwr Cyfoedion (Pennaeth ac Uwch Arweinydd arall)
- 1 x Hyrwyddwr Gwella i bob ysgol (arweinydd canol fel arfer)

## Arweinydd Partneriaeth

- Ydych chi wedi cytuno pwy fydd yn ymgymryd â'r rôl hon yng Ngham / Blwyddyn 1?

## Adolygiad gan Gymheiriaid

- Ydych chi wedi cytuno pwy fyddwch chi'n ei hyfforddi fel Adolygwr ar gyfer Blwyddyn 1?

## Hyrwyddwyr Gwella

- Ydych chi'n gwybod pwy fydd eich Hyrwyddwyr Gwella? Sut byddwch chi'n eu briffio ynghylch gofynion y rôl?

# Ble rydyn ni arni nawr a ble rydyn ni am gyrraedd ar ddiwedd Cam / Blwyddyn 1?

## Gweithgaredd

Gan ddefnyddio dull 'sortio cardiau' fel ysgogiad, trafodwch yn eich grwpiau ble rydych chi arni nawr a beth fydddech chi'n hoffi i nodau eich partneriaeth fod eleni.

Un person o bob grŵp i roi adborth.

Fel partneriaeth.....

- Ein prif nod eleni yw...
- Rydyn ni eisiau gwella'n benodol o ran.....
- Ein prif bryder yw...
- Rydyn ni'n hyderus yn ein gallu i...
- Unrhyw beth arall?

# Golwg ymlaen tuag at Dymor yr Hydref.....

## Rhan A – Adolygwyr a Hyrwyddwyr Gwella

- Dyddiad ac amser
- Egwyddorion ac ymarfer SPP, gan edrych ar y fframwaith

Dogfennau – Llawlyfr, map dysgu

## Rhan B – Adolygwyr

- Dyddiad ac amser
- Rôl yr adolygydd, fframwaith yr SPP, casglu tystiolaeth a dogfennu

Dogfennau - Llawlyfr, map dysgu, erthygl ar ‘Onestrwydd Radical’, cwestiynau GROW

## Rhan B – Hwyluswyr Gwella

- Dyddiad ac amser
- Rôl yr Hwylusydd Gwella, hwyluso a chynllunio gweithdai

Dogfennau – Llawlyfr (offer hwyluso), map dysgu, erthygl ar Dystiolaeth, cwestiynau GROW, taflen i hyfforddwr yn erbyn hwyluswr

## Rhan C - Pawb

- Dyddiad ac amser
- Y camau nesaf a chynllunio adolygiadau

- Beth wnaeth eich taro yn y sesiwn heddiw?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu?
- Pa gamau allweddol fyddwch chi'n mynd gyda chi heddiw?

Ein hymrwymiad i chi:

- Dyma gychwyn eich taith
- Byddwn yn gweithio gyda chi i'ch helpu i fodloni eich disgwyliadau
- Byddwn yn manteisio ar arbenigedd ein gilydd.

# » SCHOOLS PARTNERSHIP PROGRAMME

[partnerships@educationdevelopmenttrust.com](mailto:partnerships@educationdevelopmenttrust.com)

0118 902 1661

[SchoolsPartnershipProgramme.com](http://SchoolsPartnershipProgramme.com)

Follow us on Twitter: [@EdDevTrust\\_SPP](https://twitter.com/EdDevTrust_SPP)

